



7.0 Dod o hyd i arian a'i gael

Prisio eich Tendir

Trosolwg

1. Prif Gamau'r Broses Brisio
2. Modelau Prisio
3. Cyfrifo Gwarged ar y Contract
4. TAW
5. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)
6. Sut Rydyn ni'n Osgoi Problemau Llif Arian?
7. Adfachu
8. Awgrymiadau Gwych
9. Gwybodaeth Bellach

Mae mwy a mwy o fudiadau trydydd sector yn ceisio amrywio eu ffynonellau incwm drwy ymgorffori strategaethau a thechnegau a fydd yn sicrhau sylfaen gynaliadwy o gyllid iddynt. Mae tendro ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau o dan delerau contract yn un o'r nifer o ddewisiadau y gellir ei ystyried er mwyn creu incwm.

Mae sawl peth i'w ystyried wrth brisio tendr. Bwriad y daflen wybodaeth hon yw rhoi darlun cyffredinol o'r materion allweddol i'w hystyried.

Prif Gamau'r Broses Brisio

Mae dau gam amlwg wrth brisio'ch tendr.

Cam 1: Deall y costau llawn wrth ddarparu'r gwasanaeth

Yn gyntaf, rhaid i chi fod yn glir ynghylch beth yw'r costau llawn wrth i chi ddarparu'ch gwasanaeth. Mae'n hanfodol eich bod yn cynnwys yr holl orbenion perthnasol yn eich cyfrifiadau ac nid dim ond yn cyfri'r costau uniongyrchol neu'r costau ymylol perthnasol.

Cam 2: Penderfynu sut mae prasio'r gwasanaeth ar gyfer y bid

Efallai y byddwch yn penderfynu cynnig gwasanaeth am bris gostyngol ar y dechrau er mwyn bod yn fwy cystadleuol (a elwir yn nwyddau 'ar golled') neu gallech benderfynu mynd am elw uwch er mwyn i chi allu rhoi arian yn eich cronfeydd wrth gefn.

Neu, efallai y byddwch yn penderfynu prasio'ch tendr ar sail **adfer costau llawn**. Beth bynnag y byddwch yn penderfynu ei wneud, dylech wybod pam eich bod yn gwneud hynny a dylech asesu'r gystadleuaeth a blaenoriaethau'r comisiynydd. **Er enghraifft, efallai eich bod yn teimlo bod yr ansawdd uwch a'r gwerth ychwanegol rydych chi'n ei gynnig yn cyfiawnhau pris uwch.**

Modelau Prasio

Mae'n bwysig nodi bod y ddogfen rydych chi'n ei chyflwyno yn debygol o ffurfio rhan o'r contract. Efallai na chewch chi gyfle i newid unrhyw beth wedyn os bydd eich mudiad yn llwyddiannus. Felly, mae'n rhaid bod ôl gwaith meddwl ar y prasio, lefelau staffio a manylion yr hyn y byddwch chi'n ei gyflenwi, a hynny yn ofalus, yn geidwadol a gyda'r gymeradwyaeth briodol.

Model y comisiynydd - Mae'r Comisiynydd yn debygol o nodi sut dylech ddadansoddi'ch cyllid. Gall hyn fod ar ffurf syml iawn, er enghraifft:

- Costau staff rheng flaen
- Costau rheoli
- Gorbenion

Gweithiwch drwy eich proses eich hun ar gyfer prasio'r contract cyn llenwi model y Comisiynydd. Byddwch yn gwybod wedyn eich bod wedi cynnwys eich holl gostau.

Adfer Costau Llawn – Mae'r model hwn yn prasio pob gwasanaeth yn llawn, gan gynnwys cyfran berthnasol o gostau'r gorbenion. Mae'n sicrhau bod costau gorbenion wedi'u cynnwys a bod pob prosiect neu wasanaeth wedi'i brisio'n llawn.

Os na fyddwch yn llwyddo i adfer costau llawn yna bydd hyn yn golygu y bydd eich mudiad yn cyfrannu at gost y contract o ffynonellau eraill.

Os byddwch yn dewis cynnig gwasanaeth am bris gostyngol ar y dechrau er mwyn eich helpu i ymddangos yn fwy cystadleuol, yna dylech wybod pam eich bod yn gwneud hyn, beth y mae hyn yn ei gostio mewn gwirionedd, a sut y byddwch yn talu costau yn yr hirdymor.

Gall cyflwyno dull gweithredu ar sail adfer costau llawn fod yn broses hirfaith ac eto, mae'n hanfodol bod gennych system reolaeth ariannol o'r fath ar waith os yw eich mudiad yn bwriadu tendro'n rheolaidd am gontractau.

Cyfrifo Gwarged ar y Contract

Y meysydd cyffredin y bydd angen gwarged ar eu cyfer yw:

- **Diben cymdeithasol** – Efallai eich bod yn cyfeirio rhan o'ch gwarged tuag at hyrwyddo diben cymdeithasol eich mudiad.
- **Datblygiad yn y dyfodol** – Dylai eich mudiad fod yn meddwl yn strategol. Mae cynllunio strategaeth ar gyfer y dyfodol yn costio amser ac arian.
- **Cynaliadwyedd** – Bydd sicrhau eich bod yn gweithredu contractau proffidiol yn gwella cynaliadwyedd eich mudiad.
- **Adeiladu 'cronfeydd wrth gefn'** – Mae angen i chi fod yn cronni arian wrth gefn i dalu am eich costau gweithredol a gwella eich hylifedd.

Mae'n amhosibl bod yn rhagnodol ynghylch faint o arian dros ben y dylech anelu ato ar gontract. Yn ystod y cam cynllunio, dylech ystyried pob un o'r meysydd uchod o ran y tendr.



Cofiwch

Cofiwch adolygu pob contract i edrych ar y gwarged arfaethedig ac a lwyddwyd i gyflawni hyn. Edrychwch yn fanwl ar unrhyw ffactorau sy'n lleihau eich gwarged. Bydd hyn yn eich helpu i gynllunio'n fwy effeithiol y tro nesaf.

TAW

Un o'r materion y bydd yn rhaid i chi ei ystyried yw goblygiadau TAW wrth ymrwymo i gontractau. Mae'n bosibl y bydd angen i chi godi TAW am y nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n eu cyflenwi. Hefyd, gallech fod yn talu TAW y byddwch chi am ei hadennill.



Dolen Allanol

Mae gwybodaeth sylfaenol am faterion TAW ar gael ar wefan [Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn: Cyllid a Thollau EM - Elusennau](#)

Pan fyddwch chi'n codi **TAW** ar y nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n eu cyflenwi, cofiwch ei chynnwys yn yr anfonebau. Hefyd, cofiwch nodi manylion **TAW** yn y tendr. Os nad ydych yn siŵr am oblygiadau **TAW** unrhyw gontract rydych chi'n tendro amdano, yna ymgynghorwch ag arbenigwr **TAW**.

Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)

Safonau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth) 2006 (TUPE).

Mae **TUPE** yn aml yn berthnasol pan fydd gwasanaeth yn cael ei gynnig a darparwr presennol yn cael ei ddisodli gan un newydd. Mae'n golygu bod gan y gweithwyr yn y gwasanaethau gwreiddiol yn aml yr hawl i gael eu trosglwyddo i'r mudiad newydd. Mae ganddynt wedyn eu holl hawliau blaenorol wedi'u gwarchod, megis oriau gwaith, tâl, gwyliau a hawliau pensiwn.

Bydd angen i fudiadau sy'n tendro am wasanaethau ystyried a fydd **TUPE** yn berthnasol os byddant yn ennill tendr ac ystyried beth fydd hyn yn ei olygu yn y dyfodol.

Mae'n bwysig iawn bod darparwyr yn ystyried risg **TUPE** wrth wneud cais am gontractau, a'u bod yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu asesu eu rhwymedigaethau a'u costau'n iawn. Weithiau gofynnir i'r darparwr gwblhau **Cytundeb Cyfrinachedd** cyn y bydd yr adran gaffael yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath.

Gwiriwch a ddylai'r cais gynnwys costau **TUPE**. Efallai na fydd y pecyn tendro yn sôn am y mater. Ystyried a yw costau **TUPE** yn arwain at bris anghystadleuol. Aseswch yr effaith debygol ar y mudiad a'r amser a'r buddsoddiad sydd eu hangen i ddelio â newid mewn diwylliant a newidiadau mewn arferion gweithio.

Ystyriwch faint o'r staff sy'n trosglwyddo. Aseswch faint o'r staff sydd eu hangen i gyflawni'r contract yn erbyn nifer y staff sy'n gymwys i gael eu trosglwyddo, a chostiwch unrhyw gostau diswyddo sy'n deillio o hynny'n briodol yn y tendr.

Sut Rydyn ni'n Osgoi Problemau Llif Arian?

Wrth gynllunio'r contract dylech ystyried yr amserlen talu a gynigir gan y contractwr. Ochr yn ochr â'ch cyllideb, mae'n ddefnyddiol gwneud rhagamcaniad o lif arian. Bydd hyn yn eich helpu i ddadansoddi lle gallai problemau llif arian godi.

Dyma'r cwestiynau i'w gofyn wrth i chi wneud rhagamcaniad o'ch llif arian:

- Pryd rydyn ni'n cael ein talu?
- Sut mae'r amserlen talu hon yn effeithio ar ein gallu i ddarparu'r contract?
- Sut bydd yn effeithio ar dalu cyflogau i staff?
- Sut bydd yn effeithio ar ein gallu i dalu ein cyflenwyr (neu isgontractwyr)?

Os ydych yn meddwl y byddwch chi'n cael problemau gyda llif arian, gall fod yn werth negodi amserlen dalu wahanol neu roi yn eich tendr fod cyfran o'r costau'n cael ei thalu ymlaen llaw.

Efallai na fyddwch, ar ddiwedd y contract, yn cael gweddill costau'r contract nes bydd y contractwr yn fodlon gyda'r cyflenwi. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi drefnu gorddrafft neu fenthyciad i dalu costau os na fydd gennych ddigon o arian wrth gefn ar gyfer y llif arian.



Cofiwch

Cofiwch gynnwys costau talu am orddrafft neu ad-dalu benthyciad i gost y contract

Adfachu

Mae adfachu yn amod grant sy'n rhoi tâl i noddwr dros ased a gaffaelwyd drwy ddefnyddio'r cyllid grant. Gallai amod o'r fath ei gwneud yn ofynnol i'r corff a gyllidir ad-dalu'r grant neu, yn fwy cyffredin, ddychwelyd yr enillion o werthu'r ased i'r cyllidwr h.y. i'r cyllidwr 'adfachu'r' arian. Mae rhai cyllidwyr hefyd wedi defnyddio amod adfachu er mwyn adennill arian grant sydd heb ei wario. Fodd bynnag, nid yw adfachu'n berthnasol i gaffael nwyddau a gwasanaethau.



Mae canllawiau Trysorlys EM yn datgan y canlynol:

'Nid yw adfachu yn berthnasol i gaffael nwyddau a gwasanaethau oherwydd byddai unrhyw rwymedigaeth wedi cael ei chyflawni'n ddigonol ar ôl darparu'r nwyddau / gwasanaethau, ac mae negodi a gwerthuso prisiau yn rhan annatod o'r broses gaffael. Ar ôl dyfarnu contract, dylid barnu perfformiad ar sail allbynnau a chanlyniadau. Mater i'r darparwr ei hun yw a oes modd bodloni'r rhain o fewn y pris y cytunwyd arno ai peidio. Os yw'r darparwr yn digwydd gwneud gwarged, rhwydd hynt iddo ddefnyddio'r gwarged fel y mae'n dymuno'

Awgrymiadau Gwych

- Os yw'r contract am fwy nag un flwyddyn, cofiwch brisio unrhyw chwyddiant yng nghostau staff a chyflenwyr.
- Esboniwch unrhyw dybiaethau rydych chi wedi'u gwneud. Felly, os na fydd y comisiynydd yn cytuno â'r dybiaeth, gallant herio hynny yn hytrach na'r pris.
- Os caiff eich staff neu'ch swyddfa eu cyllido gan fwy nag un prosiect, cofiwch ddyrannu'r prisio'n deg ar draws y gwahanol gyllidwyr.
- Holwch beth fydd y telerau talu ar gyfer y contract. Bydd bob pedair wythnos ymlaen llaw neu bob chwarter ar ffurf ôl-daliad yn gwneud gwahaniaeth mawr i lif arian eich mudiad.
- Byddwch yn wylidwrus rhag defnyddio rhifau crwn, er enghraifft, dweud y bydd y cyfraniadau pensiwn yn £3,000. Mae rhifau crwn yn awgrymu eich bod wedi dyfalu yn hytrach na chyfrifo'n iawn!
- Cofiwch adolygu pob tendr a contract. Edrychwch yn ôl i weld beth a ddysgwyd. Bydd hyn yn eich helpu i wella eich prisio yn y dyfodol.
- Os oes gennych chi dendrau neu gontractau blaenorol, defnyddiwch yr wybodaeth o'r rhain i'ch helpu i baratoi eich prisio.

Gwybodaeth Bellach

Materion Cyfreithiol

CC37: Elusennau a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Comisiwn Elusennau

<https://www.gov.uk/government/publications/charities-and-public-service-delivery-an-introduction-cc37.cy>

Mae CC37 Elusennau a darparu gwasanaeth cyhoeddus a gynhrychwyd gan y Comisiwn Elusennau, yn nodi'r ystyriaethau i elusennau wrth ymgymryd â chontract.

TAW i Elusennau (Saesneg yn unig)

Cyllid a Thollau EM

<https://www.gov.uk/vat-charities>

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch goblygiadau treth at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

0845 302 0203

Adennill Costau Llawn (Saesneg yn unig)

NCVO

<https://knowhow.ncvo.org.uk/organisation/financial-management/planning-and-budgeting/project-budgeting-and-full-cost-recovery>

Cefnogaeth

Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) yng Nghymru

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

<https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru yn rhoi gwybodaeth am ystod eang o faterion ariannol a chyllido gan gynnwys tendro.

Gwybodaeth Bellach

Cefnogaeth

3-SET CGGC

0300 111 0124

3SET@wcva.cymru

Mae tîm 3-SET CGGC yn rhoi arweiniad ar dendro ar gyfer cyfleoedd a gyllidir gydag arian Ewrop.

Taflenni Gwybodaeth Ychwanegol Cefnogi Trydydd Sector Cymru

3.7 Comisiynu

3.8 Contractau

7.7 Cyflwyniad i Gaffael

7.7.1 Cyflwyniad i Dendro

7.7.2 Datblygu Tendr Llwyddiannus



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.